

## YSGOL UWCHRADD ELFED – Digwyddiad i Rieni/Gofalwyr – Dydd Llun 27 Chwefror 2012

### **Beth yw buddion addysgol cydleoli?**

Gall cydleoli ysgolion fod yn fwy effeithlon a gall greu arbedion y gellir eu defnyddio ar gyfer adnoddau ychwanegol i blant a phobl ifanc.

Mae cyfle hefyd i'r ysgolion rannu cyfleusterau penodol, er enghraifft, llyfrgell, cegin, cyfleusterau chwaraeon a stiwdio ddrama.

Trwy adnewyddu a/neu ailfodelu adeiladau ysgol, gallwn greu adeiladau sy'n addas ar gyfer yr 21 ganrif.

### **Os oes unrhyw wrthwynebiadau, a fydd ysgolion yn cael dweud eu dweud?**

Rydym ar hyn o bryd yng nghanol cam anffurfiol o'r ymgynghoriad, ac rydym yn ceisio safbwyntiau a barn am ddewisiadau a gytunwyd gan gynghorwyr.

Pan mae cynghorwyr yn cyrraedd yr adeg y maen nhw eisiau cyhoeddi cynnig unigol yn ffurfiol, yna mae hawl gan unrhyw unigolyn neu grŵp gyflwyno gwrthwynebiad.

### **Beth yw'r broblem gydag Ysgol Uwchradd Elfed, a yw'r adeilad yn rhy fawr, neu ai costau cynnal a chadw ychwanegol yw'r broblem?**

Cafodd Ysgol Uwchradd Elfed ei chynllunio ar gyfer nifer penodol o ddisgyblion, ond mae nifer sylweddol o leoedd dros ben erbyn hyn, sy'n gostus. Mae ysgolion yn derbyn arian ar sail nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru i'w mynychu. Mae hynny'n golygu bod ysgolion mawr â nifer sylweddol o leoedd dros ben yn ariannu lleoedd gwag.

### **Oes unrhyw reswm pam nad yw plant yn dod i Ysgol Uwchradd Elfed?**

Mae ysgolion yn cael eu dewis yn ôl hoffter rhieni, ac mae gan deuluoedd nifer o resymau gwahanol dros ddewis yr ysgolion y mae eu plant yn eu mynychu.

Mae hefyd yn bwysig bod gan ysgolion uwchradd berthnasoedd da gyda'u hysgolion cynradd lleol i helpu i annog dilyniant disgyblion.

Nid oed unrhyw ddalgylchoedd yn Sir y Fflint.

Mae 'hoffter rhieni' yn bodoli yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan rieni'r hawl gyfreithiol i ddewis yr ysgol y maen nhw eisiau i'w plentyn/plant ei mynychu. Cyn belled â bod lle yn yr ysgol (a bod y rheini'n talu costau cludo), yna gellir eu derbyn.

Os nad oes lle i bawb sydd eisiau mynychu'r ysgol honno, yna gall rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod y derbyniad.

## YSGOL UWCHRADD ELFED – Digwyddiad i Rieni/Gofalwyr – Dydd Llun 27 Chwefror 2012

**A lynir wrth y 10% o leoedd dros ben?**

Mae 10% o leoedd dros ben yn ganllaw cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, a dylai awdurdodau lleol sicrhau nad oes mwy na 10% o leoedd dros ben yn gyffredinol.

**Os gwneir arbedion, a fyddai'r arian yn cael ei roi'n ôl i ddarparu mwy o bynciau, ac os byddai, pa mor fuan?**

Byddai unrhyw arbedion a wneir a ellir eu gwneud o effeithlonrwydd o fewn yr ysgol (arian refeniw) gael eu cyfeirio at ddarparu mwy o adnoddau ar gyfer yr ysgol. Penderfyniad y pennaeth a'r llywodraethwyr yw sut y defnyddir hwn.

**Petai Ysgol Westwood yn cau ac yn adleoli i Ysgol Elfed, a fyddai'r arian o werthu tir Ysgol Westwood yn cael ei wario ar ddatblygu Ysgol Uwchradd Elfed?**

Mae unrhyw werthiant posibl o ysgolion/tir a.y.y.b. (arian cyfalaf) yn seiliedig ar y tir/safle'n cael ei ddatgan dros ben i'r gofynion addysgol gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

Mae'r tir/safle wedyn yn dod yn gyfrifoldeb Tîm Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor a gwneir penderfyniad ynglŷn ag a allai'r Cyngor ddefnyddio'r tir/safle ar gyfer rhywbeth arall neu a allai gael ei werthu.

Petai'r tir yn cael ei werthu, yna gellid defnyddio'r arian o'r gwerthiant at ddibenion addysgol ledled y Sir.

**A yw'n wir bod Ysgol Gynradd Drury yn cael estyniad ac a ydyn nhw wedi cael arian ar gyfer yr estyniad?**

Nid yw Ysgol Gynradd Drury yn cael estyniad.

**Gwiriondeb yw hyn, rydym yn adeiladu estyniadau ar rai ysgolion ac yn taro ysgolion eraill i lawr.**

Mae datblygwr wedi sicrhau bod peth arian ar gael o dan Gytundeb penodedig Adran 106 yn yr ardal hon, ond nid yw'n ddigon i adeiladu estyniad ar yr ysgol.

**Beth yw Cytundeb Adran 106?**

Cytundeb yw hwn rhwng y Cyngor a datblygwr tai pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer nifer sylweddol o dai ar un safle.

Mae gofyn i ddatblygwyr tai dalu swm o arian i'r Cyngor tuag at gynyddu faint o le sydd mewn ysgol/ysgolion lleol. Mae'r swm o arian yn dibynnu ar nifer y tai a gwblheir, ac mae ond ar gael os oes gan yr ysgol lai na 5% o leoedd dros bren.

Y rheswm dros hyn yw gall fod gan y teuluoedd sy'n prynu'r tai blant y bydd angen iddynt fynd i'r ysgol/ysgolion lleol, ac mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod lle yn yr ysgol/ysgolion i'w derbyn.

## YSGOL UWCHRADD ELFED – Digwyddiad i Rieni/Gofalwyr – Dydd Llun 27 Chwefror 2012

**Mewn 2 flynedd, mae'r gyfraith yn newid ac mae'n rhaid i blant aros mewn addysg llawn amser hyd nes iddyn nhw fod yn 18 mlwydd oed. A yw hyn yn wir?**

Mae ymestyn addysg i 18 mlwydd oed yn cael ei drafod yn Lloegr ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd y bydd hyn yn digwydd yng Nghymru.

Fodd bynnag, ychydig iawn o effaith y bydd hyn yn ei chael ar leoedd dros ben yn ein hysgolion, gan fod dros 97% o fyfyrwyr yn Sir y Fflint eisoes yn symud ymlaen i addysg ôl-16 naill ai mewn ysgolion neu golegau.

**A yw'r dewisiadau'n cael eu trafod â Llywodraeth Cymru ac a yw'r trafodaethau'n cael eu cynnal tu ôl i ddrwsau caeedig?**

Nid yw'r dewisiadau'n cael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n cael eu trafod yn lleol gan gynghorwyr ac mewn ymgynghoriadau fel hyn.

Pan mae cynghorwyr yn cyrraedd yr adeg y maen nhw eisiau cyhoeddi cynnig unigol yn ffurfiol, os un gwrthwynebiad yn unig fydd yn cael ei dderbyn, yna bydd y mater yn cael ei basio i Weinidogion Cymru yn Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad terfynol.

**Mae'n rhaid ei gwneud hi'n eglur y bydd Cynghorwyr yn derbyn dewisiadau eraill i'r rheiny a gynigir yn y llyfryn ymgynghori.**

Mae aelodau etholedig wedi bod yn eglur iawn y bydd dewisiadau ychwanegol yn cael eu derbyn yn ystod y broses ymgynghori hon, fodd bynnag, mae angen eu hategu gyda'r rhesymau pam mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n deilwng i gael eu hystyried i helpu Cynghorwyr werthuso eu potensial.

**Gan siarad fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Elfed, dylai'r dewis i gynnwys Argoed gael ei ail-gyflwyno.**

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y llyfrynau'n sylfaenol ac nid yw'n ddigonol i wneud penderfyniadau gwybodus. Ble gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth?**

Ceir mwy o wybodaeth gefndir fanwl ar wefan y Cyngor [www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview](http://www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview)

**Pam nad yw Bwcle yn gymwys i gael cyllid fel Ardal Treffynnon/Ardal Bwcle?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo mewn egwyddor, cyllid ar gyfer Treffynnon ar sail ystod o feini prawf, gan gynnwys cyflwr ac addasrwydd adeiladau a lefelau amddifadedd lleol.

**Pam nad oes unrhyw gyllid i gynorthwyo ardal Bwcle?**

Ni all y Cyngor Sir wneud newidiadau i unrhyw ysgol hyd nes bod y cyllid wedi'i sicrhau. Byddai angen i'r Cyngor edrych yn ofalus ar ei holl flaenoriaethau a'u cydbwysu yn erbyn yr angen i aildrefnu ei ysgolion.

**Pa mor hir fydd hi'n cymryd, gan ystyried y newidiadau demograffig, i'r gwariant sydd ei angen (£11 - £15m) gael ei oddiweddyd gan gostau cynnal a chadw a chostau rhedeg?**

Mae unrhyw ddatblygiad newydd mewn ysgolion yn cael ei gynllunio yn unol â rhagamcaniad o ddisgyblion ar gyfer y tymor canolig.

**Beth yw niferoedd y disgyblion chweched dosbarth ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf ac ar gyfer mis Medi eleni?**

Ceir mwy o wybodaeth gefndir fanwl ar wefan y Cyngor [www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview](http://www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview)

**Beth yw niferoedd y disgyblion mewn blynyddoedd chweched dosbarth eraill a faint o le sydd ynddynt - nid oes digon o wybodaeth am y pedwar dewis.**

**A yw'n wir bod gennych gynlluniau i ddefnyddio safle Westwood ar gyfer Canolfan Iechyd newydd?**

Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer safle Ysgol Gynradd Westwood. Cytunwyd i gynigion ar gyfer Canolfan Iechyd newydd ar safle blaenorol Ysgol Belmont.

## YSGOL GYNRADD WESTWOOD – Digwyddiad i Rieni/Gofalwyr – Dydd Mawrth 28 Chwefror 2012

**A oes enghreifftiau llwyddiannus o ysgolion sy'n cydleoli?**

Mae enghreifftiau o gynigion o ysgolion wedi'u cydleoli yn Telford a Cheredigion, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o lwyddiant tymor hir yn yr ardaloedd hyn eto. Mae ymagwedd Telford yn gweithio ar gyfer disgyblion 3 i 16 mlwydd oed ar gampws a rennir.

Mae gennym enghraifft lwyddiannus hirdymor yma yn Sir y Fflint hefyd yn Queensferry.

**Os yw ysgol uwchradd yn cydleoli gydag ysgol uwchradd yn cael ei wrthod fel dewis 'gwael', pam byddech yn dewis 2 ddewis newydd sy'n cynnwys ysgol gynradd yn integreiddio, sydd llawer yn fwy cymhleth?**

Gwelodd aelodau etholedig eu bod nhw am archwilio'r posibilrwydd o gydleoli ysgol gynradd ac uwchradd ar un safle.

**Mae cymaint o ddewisiadau da sy'n ymwneud ag Elfed yn ehangu cyfleusterau hamdden – pam mae Westwood yn cael ei ystyried?**

**A oedd cyfuniadau/cytleoliadau eraill yn cynnwys trefniadau chwaraeon, hamdden a ffreutur?**

Mae Ysgol Maes Hyfryd ac Ysgol Uwchradd y Fflint yn rhannu cyfleusterau cegin, ond mae ganddynt fannau bwyta ar wahân. Mae'r safle hefyd yn rhannu cyfleusterau hamdden gyda'r gymuned ehangach.

Mae Ysgol Uwchradd Elfed hefyd yn rhannu cyfleusterau hamdden gyda'r gymuned ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl a byddai'n ddichonadwy, ond mae angen datblygiad ystyrlon iawn.

**Beth ydych chi'n ei gynllunio ar gyfer tir Westwood?**

Rydym ni'n edrych ar ddewisiadau'n unig ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gynlluniau cadarn ar gyfer hyn nac unrhyw safle arall.

**Beth am ddalgylch Westwood?**

Nid oes dalgylchoedd yn Sir y Fflint.

Mae 'hoffter rhieni' yn bodoli yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan rieni hawl gyfreithiol i ddewis yr ysgol y maen nhw eisiau eu plentyn/plant i'w mynychu. Cyn belled â bod lle yn yr ysgol

(a bod y rheini'n talu costau cludo), yna gellir eu derbyn.

Os nad oes lle i bawb sydd eisiau mynychu'r ysgol honno, yna mae plant yn cael eu derbyn ar sail pa mor agos y maen nhw'n byw i'r ysgol. Os nad yw rhieni'n llwyddiannus o ran ennill lle ar gyfer eu plentyn/plant, gallan nhw apelio.

---

**A fyddai'r arian a arbedir o'r ymarfer hwn yn ariannu adeilad Neuadd Sir newydd?**

Nid oes unrhyw fater posibl yn yr ymgynghoriad hwn sy'n gysylltiedig ag ysgolion ynglŷn ag unrhyw arian ar gyfer adeilad Neuadd Sir newydd.

---

**Beth sy'n digwydd i fonitro'r rhagamcaniadau a ddefnyddir i lywio eich penderfyniadau?**

Mae demograffeg yn cael ei ystyried yn llawn. Bydd mor bell ymlaen â 2019 cyn i niferoedd mewn rhai ysgolion uwchradd ddechrau cynyddu.

---

**A yw'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ystyried?**

---

**A yw Argoed yn dal i gael ei ystyried?**

Mae aelodau etholedig wedi bod yn eglur iawn y bydd dewisiadau ychwanegol yn cael eu derbyn yn ystod y broses ymgynghori hon, fodd bynnag, mae angen eu hategu gyda'r rhesymau pam mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n deilwng i gael eu hystyried i helpu Cynghorwyr werthuso eu potensial.

---

**A yw hyn wedi'i benderfynu eisoes?**

Nid oes dim wedi'i benderfynu eisoes. Mae hwn yn ymarfer ymgynghori anffurfiol cychwynnol i gasglu safbwyntiau a barn ar y dewisiadau sydd yn y llyfryn i helpu cynghorwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.

## YSGOL UWCHRADD ELFED – Digwyddiadau Rhieni/Gofalwyr Ysgol Gynradd – 29 Chwefror 2012

<b>Beth yw capasiti Ysgol Westwood?</b>	226 o ddisgyblion llawn amser a 21 o ddisgyblion Meithrin - sef cyfanswm o 247 disgybl Y nifer derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Westwood yw 32.
<b>Mae'r ffigurau amcan ar gyfer Bwcle yn dangos bod Bwcle'n tyfu o ran y cynllun datblygu.</b>	Mae unrhyw ddatblygiad newydd mewn ysgolion yn cael ei gynllunio yn unol â rhagamcaniadau disgyblion ar gyfer y tymor canolig.
<b>Beth fydd yn digwydd i Ysgol Uwchradd Elfed os na ellir dod o hyd i'r arian ar gyfer y dewisiadau?</b>	Ni all y Cyngor Sir wneud newidiadau i unrhyw ysgol hyd nes bod arian ar gael. Byddai angen i'r Cyngor edrych yn ofalus ar ei holl flaenoriaethau a'u cydbwysu yn erbyn yr angen i aildrefnu ei ysgolion.
<b>Os bydd y chweched dosbarth yn cau yn Ysgol Uwchradd Elfed, ble fydd y disgyblion hyn yn mynd?</b>	Byddai adleoli disgyblion o chweched dosbarth Ysgol Uwchradd Elfed yn golygu pwysau ychwanegol ar flynyddoedd chweched dosbarth lleol eraill. Er enghraifft, efallai y byddai angen £2.5m ar gyfer estyniad i Ysgol Uwchradd Alun, Yr Wyddgrug i roi lle i oddeutu 80 o ddisgyblion a allai gael eu hadleoli o Ysgol Uwchradd Elfed.
<b>A oes diffyg cyllid yn Ysgol Uwchradd Elfed?</b>	Mae cyllid ar gyfer disgyblion 11 -16 mlwydd oed yn dod o'r Awdurdod Lleol ar sail fformiwla fesul disgybl. Mae cyllid ôl-16 yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Lywodraeth Cymru a'i ddyrannu i ysgolion unigol. Mae cyllid ôl-16 yn is yn Ysgol Uwchradd Elfed o ganlyniad i'r chweched dosbarth llai.
<b>A yw'r diffyg cyllid yn methu â denu disgyblion oherwydd bod gan rai eraill gyllid?</b>	Mae ysgolion yn cael eu dewis yn ôl hoffter rhieni ac mae gan deuluoedd nifer o resymau gwahanol dros ddewis yr ysgolion y mae eu plant yn eu mynychu.
<b>Ai dyma'r rheswm pam nad yw'r Ysgol yn denu disgyblion?</b>	Mae hefyd yn bwysig bod gan ysgolion uwchradd berthnasoedd da gyda'u hysgolion cynradd lleol i helpu i annog y dilyniant o ddisgyblion.  Nid oes dalgylchoedd yn Sir y Fflint.  Mae 'hoffter rhieni' yn bodoli yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan rieni hawl gyfreithiol i ddewis yr ysgol y maen nhw eisiau i'w plentyn/plant ei mynychu. Cyn belled â bod lle yn yr ysgol (a bod rhieni'n talu'r costau cludo), yna gellir eu derbyn.  Os nad oes lle i bawb sydd eisiau mynd yno, yna gall rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod

derbyniad.

**Cymysgu plant. Ni all disgyblion chweched dosbarth gael gwiriad CRB? Beth yw'r cynlluniau i fynd i'r afael â hyn?**

Mae diogelwch o'r pwys mwyaf. Enghraifft yn Sir y Fflint yw mynediad i'r cyhoedd at Lyfrgell Brychdyn ac ysgol gynradd fawr sy'n cydfodoli. Mae mynediad ar wahân wedi cael ei adeiladu i gadw'r plant cynradd ar wahân i'r cyhoedd. Mae'n cael ei gydnabod nad yw'n briodol cymysgu disgyblion uwchradd a chynradd, a byddai unrhyw ddatblygiad yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

**Sut byddwch chi'n mynd i'r afael â phlant ifanc yn cymysgu â disgyblion hŷn y tu allan i'r ysgol, o ran cerdded i'r ysgol hefyd?**

Mae'r gwahaniad yn yr adeilad hefyd yn gymwys i'r tu allan h.y. mae'n rhaid i addysg awyr agored gael ei wahanu. Mae angen ystyried hefyd gwneud y llwybr i'r ysgol yn ddiogel i ddisgyblion iau, er enghraifft, gyda llwybrau cerdded, bysiau a gwahanol amseroedd dechrau/gorffen.

**Faint o le swyddfa fydd ei angen os yw'r lleoliad yn cael ei ad-drefnu?**

Byddai angen gwneud gwaith pellach i amcangyfrif faint o leoedd dros ben y gellid eu cymryd wrth drosglwyddo lle swyddfa o fan arall.

**A fydd Ysgol Westwood yn llenwi'r lleoedd dros ben?**

Bydd. Byddai Ysgol Gynradd Westwood yn cymryd y lleoedd dros ben presennol yn Ysgol Uwchradd Elfed.

**Ai llai na 600 o ddisgyblion yw'r ffigur sbardun ar gyfer ymgynghori ag ysgolion uwchradd?**

Nid oes y fath beth ag isafswm, dim ond sbardunau i'w hadolygu. Nid oes nifer arbennig sy'n gwneud ysgol yn ymarferol.

**Os yw 120 o ddisgyblion chweched dosbarth yn gyfaddawd o ran cael y nifer cywir, beth sy'n gwneud nifer ymarferol o ddisgyblion chweched dosbarth?**

Yn Sir y Fflint, rydym wedi gosod sbardun o 120 ar gyfer dosbarthiadau chwech, ond byddai'r llywodraeth genedlaethol yn dweud bod hyn yn rhy isel, a bod 150 yn fwy cynaliadwy.

Mae sbardunau eraill yn cynnwys 600 o ddisgyblion 11-16 o ddisgyblion a thros 25% o leoedd dros ben.

**Mae'n wael bod Bwcle'n cyfrannu'n fawr gyda threth y cyngor, felly pam ddylai'r dref golli ei chweched dosbarth.**

Mae hoffter rhieni a hoffter ôl-16 yn egwyddorion a hawliau cyfreithiol pwysig. Mae'n bwysig annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau lleol i barhau â'u haddysg. Fodd bynnag, lle dysgwyr a'u teuluoedd yw dewis yn y pen draw.



**Gormod o ddewis mewn ysgolion uwchradd eraill neu hyd yn oed Wrecsam.**

**Ni ddylai Bwcle ddioddef oherwydd bod yr adeilad yn hen.**

**Naid yn y niferoedd ers tair blynedd yn ôl – a aed i'r afael â hyn?**

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae niferoedd disgyblion wedi bod yn symud i ffwrdd o Ysgol Elfed. Er y gall fod cynnydd mewn rhai grwpiau blwyddyn, mae'r nifer yn dal i ostwng yn gyffredinol. Mae symudiad dros y blynyddoedd wedi dangos bod disgyblion yn mynychu Ysgolion Uwchradd Alun ac Argoed yn yr Wyddgrug. Mae'r ysgolion yn archwilio hyn fel mater pwysig.

**Pa gymorth y mae ysgolion yn ei dderbyn i fynd yn ôl i mewn i Ysgol Elfed?**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ei chyflawniadau da niferus h.y. arholiadau, hamdden a'r hyn y mae ysgolion cynradd yn eu derbyn. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n gadarnhaol ar adeiladu perthnasoedd gyda theuluoedd mewn ysgolion cynradd cyfagos.

**Y cyngor sy'n gyfrifol am niferoedd yn gostwng - allan nhw ddim cynorthwyo ymhellach yn erbyn ysgolion eraill h.y. atal yn well na gwella?**

Mae'r awdurdod lleol yn helpu pob ysgol gyda'r materion hyn, yn cynnwys gyda chyngor ar gynllunio'r cwricwlwm, safonau, rheoli adnoddau a phontio. Fodd bynnag, ni all ffafrio un ysgol dros un arall. Rhaid iddi hefyd sicrhau nad yw'n atal rhieni rhag mynegi eu hoffter.

**A yw llai na 600 o ddisgyblion yn ffigur sbardun ar gyfer ymgynghori ag ysgolion uwchradd?**

Ffigur er arweiniad yw hwn ar gyfer sbarduno adolygiad ardal newydd o ysgolion.

**Os derbynnir un gwrthwynebiad, beth fydd yn digwydd?**

Pan mae cynghorwyr yn cyrraedd yr adeg y maen nhw eisiau ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig unigol dewisol, ac os un gwrthwynebiad yn unig fydd yn cael ei dderbyn i'r cynnig hwnnw, yna bydd y mater yn cael ei basio i Weinidogion Cymru yn Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad terfynol.

Yn ystod y cam hwnnw, gall Llywodraeth Cymru ddweud ie neu na yn unig o ran gweithredu'r cynnig. Ni allan nhw awgrymu cynnig gwahanol na gwneud newidiadau i'r cynnig sydd wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor Sir.